

**BARNWR CYSWLLT / DIRPRWY FARNWR
CYSWLLT AR GYFER YR IAITH GYMRAEG**

CYLCH GORCHWYL

Swyddogaeth y Barnwr Cyswllt ar gyfer yr Iaith Gymraeg yw cysylltu â barnwyr ar bob lefel, Ynadon, Clercod Ynadon a staff GLIEM ac eraill i sicrhau y darperir gwasanaethau'n llwyddiannus i'r rhai sy'n defnyddio'r llysoedd yng Nghymru yn yr Iaith Gymraeg, ac i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd.

Yn benodol, bydd y Barnwr Cyswllt yn gwneud y canlynol:

- sicrhau, ar ran y Barnwyr Llywyddol y rhoddir ar waith y Cyfarwyddiadau Ymarfer (1) Y Cyfarwyddyd Ymarfer Troseddol Cyfnerthedig paragraffau 111.23.1 - 111.23.13 (Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr 8 Gorffennaf 2002 fel y'u diwygiwyd 22 Ionawr 2004), (2) yn ymwneud â defnyddio'r Iaith Gymraeg yn y Llysoedd Sifil yng Nghymru (Yr Anrhydeddus Mr Ustus Maurice Kay a'r Anrhydeddus Mr Ustus Thomas 26 Ebrill 1999), (3) Cyfarwyddyd Atodol perthnasol i achosion lle y defnyddir yr Iaith Gymraeg ac sy'n tarddu o Ogledd Cymru (Yr Anrhydeddus Mr Ustus Thomas a'r Anrhydeddus Mr Ustus Richards 28 Chwefror 2000) a (4) Cyfarwyddyd ar gyfer Rhestru achosion sifil lle y defnyddir yr Iaith Gymraeg ac sy'n tarddu o Ogledd Cymru (Yr Anrhydeddus Mr Ustus Thomas a'r Anrhydeddus Mr Ustus Richards 31 Gorffennaf 2000).
- derbyn hysbysiad am unrhyw wrandawriad yn yr Uchel Lys, Llys y Goron neu Lys Sirol lle y bo un o'r rhai sy'n gysylltiedig yn dymuno defnyddio'r Iaith Gymraeg.
- goruchwyllo, ar ran y Barnwyr Llywyddol, y trefniadau ymarferol yn ymwneud â chynnal unrhyw wrandawriadau, neu roi tystiolaeth yn Gymraeg ym mhob Llys yng Nghymru; i sicrhau bod yr holl lysoedd yn ymarfer dull gweithredu cyson ac y cwrddir ag anghenion y rhai sy'n dymuno defnyddio'r Iaith Gymraeg yn llysoedd Cymru.

**LIAISON JUDGE / DEPUTY LIAISON JUDGE
FOR THE WELSH LANGUAGE**

TERMS OF REFERENCE

The role of the Liaison Judge for the Welsh Language is to liaise with judges at all levels, Magistrates, Justices Clerks and HMCS staff and others to ensure the successful delivery of services to those using the courts in Wales in the Welsh Language, and to promote the use of Welsh in the courts.

In particular the Liaison Judge will:

- ensure, on behalf of the Presiding Judges, that the Practice Directions (1) The Consolidated Criminal Practice Direction paragraphs 111.23.1 – 111.23.13 (Lord Chief Justice of England and Wales 8 July 2002 as amended 22 January 2004), (2) relating to the use of the Welsh Language in the Civil Courts in Wales (The Hon. Mr Justice Maurice Kay and The Hon. Mr Justice Thomas 26 April 1999), (3) Supplementary Direction applicable to cases where the Welsh Language is to be used and which originate in North Wales (The Hon. Mr Justice Thomas and The Hon. Mr Justice Richards 28 February 2000) and (4) Guidance for the Listing of civil cases where the Welsh Language is to be used and which originate from North Wales (The Hon. Mr Justice Thomas and The Hon. Mr Justice Richards 31 July 2000) are given effect.
- receive notification of any hearing in the High, Crown and County Courts in which one of those involved wishes to use the Welsh language.
- on behalf of the Presiding Judges, oversee the practical arrangements relating to the conduct of any hearings, or the giving of evidence, in Welsh in all the Courts of Wales; to see that all the courts pursue a consistent approach and that the needs of those who wish to use the Welsh Language in the courts of Wales are met.

- adolygu effeithlonrwydd ymdrin â materion gerbron yr holl lysoedd lle bo un neu fwy o'r rhai sy'n gysylltiedig yn dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg a gwneud argymhellion i'r Barnwyr Llywyddol a'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol ar unrhyw welliannau sydd angen eu gwneud i weithredu hawliau statudol a Chynllun Iaith Gymraeg GLIEM.
- derbyn copïau o unrhyw gwynion a wneir ynghylch defnyddio'r iaith Gymraeg yn llysoedd Cymru a sicrhau, lle bo cyfiawnhad dros gwynion o'r fath, bod camau wedi'u cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r gofynion statudol ar gyfer defnyddio'r iaith Gymraeg yn y llysoedd.
- cysylltu â GLIEM a'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol (BAB) i drefnu hyfforddiant ar gyfer aelodau o'r farnwriaeth sy'n siarad Cymraeg (gan gynnwys yr Ynadaeth) gan adolygu anghenion hyfforddi'r farnwriaeth a'r ynadaeth o ran cynnal achosion yn yr iaith Gymraeg a chefnogi cyrsiau eiriolaeth a chysiau hyfforddi eraill yn ymwneud â defnyddio'r iaith Gymraeg yn y llysoedd.
- cysylltu â GLIEM i drefnu a chyflwyno seminarau hyfforddi ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg a chymeradwyo'r rhai sy'n gymwys i'w cynnwys ar restr cyfieithwyr GLIEM.
- bod yn aelod o Bwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar y Gymraeg a chysylltu ag eraill sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo datblygu gwasanaethau cyfiawnder yn yr iaith Gymraeg.
- review the effectiveness of the handling of matters before all the courts in which one or more of those involved wish to use the Welsh Language and make recommendations to the Presiding Judges and Regional Director on any improvements that need to be made to give effect to statutory rights and the HMCS Welsh Language Scheme.
- be provided with copies of any complaints made in respect of the use of the Welsh language in the courts of Wales and see that where such complaints are justified, steps have been taken to ensure that the statutory requirements for the use of the Welsh language are complied with in the courts.
- liaise with the HMCS and the Judicial Studies Board (JSB) to organise training for Welsh-speaking judiciary (including the Magistracy) and keep under review the training needs of the judiciary and magistracy with regard to the conduct of hearings in the Welsh Language and support advocacy and other training courses relating to the use of the Welsh Language in the courts.
- liaise with the HMCS to organise and present training seminars for Welsh interpreters and approve those eligible to be included on the HMCS list of interpreters.
- be a member of the Lord Chancellor's Standing Committee for the Welsh Language and liaise with others involved in the justice system, the Welsh Assembly Government and the Welsh Language Board to promote the development of justice services in the Welsh Language.

Mai 2006

May 2006